



monmouthshire sir fynwy

Adroddiad Monitro Blynyddol
Safonau'r Gymraeg
Cyngor Sir Fynwy

1af Ebrill 2023 - 31ain Mawrth 2024



Trosolwg

Dyma adroddiad blynyddol Cyngor Sir Fynwy ar Safonau'r Gymraeg. Ei ddiben yw gwerthuso ein cydymffurfiaeth â'r Safonau, a'r ffyrdd yr ydym wedi hyrwyddo a hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r iaith yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn ystod y flwyddyn. Fe'i lluniwyd yn unol ag Atodlen 4 o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, i fodloni gofynion Safonau 158, 164 a 170.

Gwybodaeth Bellach

Mae'r adroddiad hwn ar gael ar wefan Cyngor Sir Fynwy: www.monmouthshire.gov.uk/cy.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gynnwys yr adroddiad hwn, cysylltwch â ni ar y manylion isod.

Nia Roberts

Swyddog y Gymraeg

Polisi, Perfformiad a Chraffu

Cyngor Sir Fynwy

Neuadd y Sir

Y Rhadyr

Brynbuga

NP15 1GA

Rhif Ffôn: 01633 644010

E-bost: niaroberts@monmouthshire.gov.uk

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg, ac ni fydd cysylltu â ni yn Gymraeg yn arwain at oedi mewn ymateb.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

Dogfennau Cysylltiedig

[Strategaeth Iaith Gymraeg 5 Mlynedd Cyngor Sir Fynwy 2022-2027](#)

Yr aelod cabinet gyda chyfrifoldeb dros y Gymraeg yn ystod 2022/23 oedd y Cyng. Angela Sandles.

Cynnwys

<i>1. Cefndir</i>	<i>4</i>
<i>2. Cydymffurfiaeth</i>	<i>5-12</i>
• <i>Safonau Cyflenwi Gwasanaethau</i>	<i>5-8</i>
• <i>Safonau Llunio Polisi</i>	<i>9</i>
• <i>Safonau Gweithredu</i>	<i>10-12</i>
<i>3. Cwynion</i>	<i>13</i>
<i>4. Sgiliau Iaith Gymraeg</i>	<i>14-15</i>
<i>5. Cyrsiau Cymraeg</i>	<i>16-17</i>
<i>6. Recriwtio</i>	<i>18-19</i>
<i>7. Gwasanaeth Cwsmer</i>	<i>20</i>
<i>8. Hyrwyddo</i>	<i>21-24</i>
<i>9. Casgliad</i>	<i>25-26</i>

1. Cefndir

Mae Cyngor Sir Fynwy yn cydnabod pwysigrwydd yr Iaith Gymraeg fel rhan greiddiol o'n hunaniaeth ddiwyllianol, treftadaeth a chydlyniant cymunedol. Drwy gydol y flwyddyn 2022/2023, mae'r Cyngor wedi ymrwmo i feithrin amgylchedd lle gall y Gymraeg ffynnu a lle gall siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd.

Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol sydd yn gosod dyletswydd ar Gyngor Sir Fynwy, ochr yn ochr â sefydliadau cyhoeddus eraill, i gydymffurfio â Safonau'n ymwneud â'r Gymraeg. Egwyddorion allweddol y Safonau hyn yw:

- ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- dylem hybu a hwyluso defnydd o'r iaith.

Yn 2015 derbyniodd Cyngor Sir Fynwy Hysbysiad Cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r Safonau y mae'n rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â nhw.

Mae cyfanswm o 176 o Safonau sy'n berthnasol i Gyngor Sir Fynwy. Mae'r Safonau hyn wedi'u gosod mewn 5 categori, sef:

- Cyflenwi Gwasanaethau;
- Llunio Polisi;
- Gweithredu;
- Hybu;
- Cadw Cofnodion.

Mae Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i ni:

- Cynhyrchu a chyhoeddi ar ein gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n nodi sut yr ydym yn bwriadu hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach yn ein hardal. (Safonau 145,146)
- Cynhyrchu adroddiad blynyddol, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n ymdrin â sut rydym wedi cydymffurfio â'r Safonau a chyhoeddi hwn ar ein gwefan. (Standards 158, 164, 170)

Mae [Hysbysiad Cydymffurfio'r Cyngor](#) i'w weld ar ein gwefan ddwyieithog.

2. Cydymffurfiad

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Grŵp Safonau	Camau a Gymerwyd yn Ystod 2022/2023	Camau i'w Cymryd 2023/2024
Safonau 1 - 7 Gohebiaeth a ddanfonwyd ac a dderbyniwyd.	<ul style="list-style-type: none"> Anfonwyd nodiadau atgoffa i staff am ein gofynion i'r Safonau'r Gymraeg wrth anfon gohebiaeth. 	<ul style="list-style-type: none"> Parhau i fonitro gohebiaeth.
Safonau 8 - 22 Galwadau ffôn a wnaed ac a dderbyniwyd.	<ul style="list-style-type: none"> Ar hyn o bryd rydym yn disgwyl am system Teleffoni Canolfan Gyswllt newydd a fydd yn caniatáu i'r rhai sydd am siarad â'r Cyngor yn Gymraeg gael eu blaenoriaethu i aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn y Ganolfan Gyswllt. System chwilota ffôn gyda Swyddogion sy'n siarad Cymraeg ar draws yr Awdurdod. Negeseuon peiriant ateb ar gyfer pob adran wedi'w recordio'n ddwyieithog. 	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau pan dderbynnir galwadau ffôn Cymraeg. Monitro cynnydd gweithredu system Canolfan Gyswllt newydd.
Safonau 24 - 36 Cyfarfodydd gyda'r Cyhoedd.	<ul style="list-style-type: none"> Darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd cyhoeddus lle bo angen. 	<ul style="list-style-type: none"> Monitro i sicrhau bod y cynnig o gyfieithu ar y pryd yn parhau i gael ei wneud.
Safonau 37 - 51, 69 - 70 Dogfennau dwyieithog eraill.	<ul style="list-style-type: none"> Atgoffwyd staff o'r angen i ddatgan ar ddogfennau eu bod hefyd ar gael yn y Gymraeg. Cydymffurfiaeth yn cael ei fonitro trwy wirio gwefannau a cheisiadau cyfieithu a wneir trwy wasanaeth cyfieithu Cymraeg. Crëir pob ffurflen gais at ddefnydd y cyhoedd yn ddwyieithog ac atgoffir staff o'r gofyniad hwn. Mae'r holl hysbysiadau swyddogol yn cael eu cynhyrchu a'u harddangos yn ddwyieithog. 	<ul style="list-style-type: none"> Gwneud defnydd o'r 'Cynghorion Cymraeg' o fewn Cylchlythyr Staff i atgoffa staff o'r gofynion. Parhau i fonitro cydymffurfiaeth yn agos.
Safonau 52 - 60 Gwefannau, Cyfryngau Cymdeithasol, Apiau, a Pheiriannau Hunanwasanaeth.	<ul style="list-style-type: none"> Gwefannau a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol Sir Fynwy yn cael eu monitro'n rheolaidd i sicrhau cydymffurfiaeth. 	<ul style="list-style-type: none"> Parhau i fonitro pob gwefan a chyfrif cyfryngau cymdeithasol.

Safonau 52 - 60 Gwefannau, Cyfryngau Cymdeithasol, Apiau, a Pheiriannau Hunanwasanaeth.

- Swyddog Iaith Gymraeg yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd gydag awduron gwefannau i'w hatgoffa o'r gofynion ac i ateb unrhyw gwestiynau.
- Pan fydd materion yn codi, mae'r Swyddog Iaith Gymraeg yn gweithio'n agos gyda'r Swyddog ac Awduron y Wefan i unioni unrhyw faterion.
- Swyddog Iaith Gymraeg yn cofnodi gwiriadau cydymffurfio ar gyfer gwefannau a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol ac yn nodi unrhyw gamau a gymerwyd.
- Mae'r canlynol yn ddata ynghylch ymweliadau ar y tudalennau Saesneg (S) a'r Gymraeg (C):

Ailgylchu a Gwastraff:

S:102,814

C: 310

Treth y Cyngor:

S:36,739

C: 101

Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant ac Ysgolion:

S: 2,050

C: 39

Addysg Cyfrwng Gymraeg

S:792

C: 128

Hybiau Cymunedol a Llyfrgelloedd:

S: 20,578

C: 220

- Swyddog Iaith Gymraeg i gymryd rhan yng Nghaffi Digidol yr adran Gyfathrebu.
- Creu cofnod o unrhyw faterion a nodwyd ac unrhyw gamau a gymerwyd i'w datrys.
- Creu hyfforddiant gorfodol i awduron gwefannau ar sut i ddefnyddio'r Gymraeg ar lwyfannau digidol.

Safonau 61 - 63 Arwyddion.	<ul style="list-style-type: none"> • Mae pob arwydd stryd newydd naill ai'n ddwyieithog neu'n uni-aith Gymraeg. Dewisir enwau yn ofalus i adlewyrchu hanes a thref-tadaeth yr ardal. Mae Swyddog y Gymraeg yn gweithio'n agos gyda'r Swyddog Enwi Strydoedd i helpu gyda'r broses hon. • Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd wedi'i ddiweddarau i gynnwys y bydd platiau enwau strydoedd newydd yn cynnwys enwau Cymraeg a Saesneg a bydd y ddau enw'n cael eu diweddarau ar y rhestr. 	<ul style="list-style-type: none"> • Swyddog Iaith Gymraeg i barhau i weithio'n agos gyda'r Swyddog Enwi Strydoedd ar enwi strydoedd newydd • Monitro cydymffurfiaeth.
Safonau 64 - 68 Gwasanaethau'r Dderbynfa.	<ul style="list-style-type: none"> • Derbyniadau ar draws yr Awdurdod yn cael eu monitro i sicrhau bod posteri 'Cymraeg' yn cael eu harddangos i ddangos y gellir defnyddio'r Gymraeg. • Sgiliau Cymraeg yn cael eu hasesu yn ystod cyfweiliadau ar gyfer rolau yn y dderbynfa. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae derbyniadau ar draws yr Awdurdod yn parhau i gael eu monitro. • Comisiynu ymarferion siopa dirgel.
Safonau 71 - 75 Rhoi Grantiau.	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan y Cyngor restr wirio Gofynion Iaith Gymraeg - Caffael. 	<ul style="list-style-type: none"> • Monitro i sicrhau cydymffurfiaeth.
Safonau 76 - 80 Rhoi Cytundebau.	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan y Cyngor restr wirio Gofynion Iaith Gymraeg - Caffael. 	<ul style="list-style-type: none"> • Monitro i sicrhau cydymffurfiaeth.
Safonau 81 - 82 Hyrwyddo Gwasanaethau Iaith Gymraeg.	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gwasanaethau Cymraeg yn cael eu hyrwyddo'n frwd ar wefan a thudalennau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor. • Postiadau cyfryngau cymdeithasol wedi'u creu ar gyfer dyddiadau pwysig yn y calendr Cymraeg i hybu'r Gymraeg. 	<ul style="list-style-type: none"> • Monitro cyfryngau cymdeithasol i sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn parhau i gael eu hyrwyddo. • Trefnu hyrwyddiadau ar gyfer digwyddiadau / dyddiadau allweddol.

Safon 83 Hunaniaeth Gorfforaethol.	<ul style="list-style-type: none"> • Rhoddir cyfeiriadau e-bost ddwyieithog i bob aelod o staff. • Sicrhau bod pob agwedd ar hunaniaeth gorfforaethol yn ddwyieithog ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Hyrwyddo cyfeiriadau e-bost ddwyieithog i bob aelod o staff. • Sicrhau bod cyfeiriadau e-bost ddwyieithog yn cael eu defnyddio ar draws ein gwefan, dogfennau a ffurflenni.
Safonau 84 a 86 Cyrsiâu Addysgol.	<ul style="list-style-type: none"> • Rydym yn asesu cyrsiau addysgol i benderfynu a oes angen eu cyflwyno yn Gymraeg. 	<ul style="list-style-type: none"> • Parhau i asesu a monitro'r angen i gyflwyno cyrsiau addysgol yn Gymraeg.
Safon 87 Systemau Cyhoeddiadau Cyhoeddus.	<ul style="list-style-type: none"> • Mae pob system annerch cyhoeddus yn ddwyieithog. • Monitro cydymffurfiaeth drwy ymweliadau. 	<ul style="list-style-type: none"> • Monitro i sicrhau cydymffurfiaeth. • Sicrhau bod unrhyw systemau annerch cyhoeddus newydd yn parhau i fod yn ddwyieithog.

Safonau Llunio Polisi

Grŵp Safonau	Camau a Gymerwyd yn Ystod 2022/2023	Camau i'w Cymryd 2023/2024
Standards 88 - 93 Llunio Polisi.	<ul style="list-style-type: none"> • Hyfforddiant wedi'i greu ar gyfer 'Aseidiadau Effaith ar y Gymraeg'. • Cynhelir aseidiadau effaith ar y Gymraeg ar gyfer pob penderfyniad polisi. • Cyfarfodydd Sicrhau Ansawdd ar gyfer Aseidiadau Effaith a rhoi adborth i awduron adroddiadau - Tîm Polisi. 	<ul style="list-style-type: none"> • Porth hyfforddiant 'Thinqi' i'w gael ei ddefnyddio i ganiatáu mynediad hawdd i staff at hyfforddiant Cymraeg sy'n ymwneud â Llunio Polisi. • Cynnal gweithdai ar sut i gwblhau Aseidiadau Effaith ac Ymgynghoriadau effeithiol ar y Gymraeg. • Cyfarfodydd sicrhau ansawdd i barhau a monitro eu heffeithiolrwydd o ran canlyniadau. • Monitro cydymffurfiaeth gyda Safonau a rhoi hyfforddiant pellach i staff lle nodir materion.

Safonau Gweithredu

Grŵp Safonau	Camau a Gymerwyd yn Ystod 2022/2023	Camau i'w Cymryd 2023/2024
Safonau 99 – 104 Dogfennau Cyflogaeth.	<ul style="list-style-type: none"> • Dogfennau AD ar gael yn ddwyieithog ar fewnwyd y Cyngor - Hyb. • Atgoffir staff ar Sianel Teams Cymraeg y gallant gyrchu dogfennau AD yn y Gymraeg. 	<ul style="list-style-type: none"> • Parhau i anfon nodiadau atgoffa i staff o bryd i'w gilydd drwy gydol y flwyddyn.
Safonau 105 – 111 Polisiâu Adnoddau Dynol.	<ul style="list-style-type: none"> • Mae polisiâu AD ar gael yn ddwyieithog ar fewnwyd y staff. 	<ul style="list-style-type: none"> • Monitro i sicrhau cydymffurfiaeth.
Safonau 112 – 119 Gweithdrefnau Cwyno a Disgyblu.	<ul style="list-style-type: none"> • Gwneir staff yn ymwybodol o'u hawl i gwblhau'r broses gwyno / disgyblu yn y Gymraeg. 	<ul style="list-style-type: none"> • Parhau i sicrhau bod hyn yn cael ei gynnig.
Safonau 120 - 126 Mewnwyd y Staff ac Adnoddau TG.	<ul style="list-style-type: none"> • Meddalwedd gwirio sillafu Cymraeg wedi'i osod ar bob cyfrifiadur. • Fideos hyfforddi Cysgliad yn cael eu rhannu gyda staff sy'n siarad Cymraeg ar Sianel Timau Cymraeg. • Tudalen Gymraeg ar fewnwyd staff. 	<ul style="list-style-type: none"> • Parhau i gynnig cefnogaeth i staff ar ddefnyddio 'Cysgliad' • Sicrhau bod tudalen fewnwyd Gymraeg yn cael ei diweddarau'n rheolaidd.
Safon 127 Sgiliau Iaith Staff.	<ul style="list-style-type: none"> • Cesglir gwybodaeth am sgiliau iaith staff yn ystod y broses ymgeisio am swyddi newydd. • Cynhaliwyd adolygiad diweddar gan y Swyddog Iaith Gymraeg i sicrhau bod gwybodaeth am sgiliau Cymraeg staff yn gywir ac yn gyfredol. • Mae'r Swyddog Iaith Gymraeg yn derbyn gwybodaeth gan yr adran AD am ddechreuwyd newydd ac mae'r rhestr o siaradwyr Cymraeg yn cael ei diweddarau'n fisol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Ymgorffori cofnodion o sgiliau iaith Gymraeg staff ar y llwyfan hyfforddi Thinqi. Lefelau sgiliau Cymraeg i'w diweddarau'n flynyddol ynghyd â hyfforddiant gorfodol.

Safonau 128 - 133 Hyfforddi Staff.	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Swyddog Iaith Gymraeg yn cymryd rhan yn yr hyfforddiant Anwytho Corfforaethol trwy gydol y flwyddyn i hysbysu dechreuwyr newydd o'n gofynion ar gyfer y Gymraeg a hefyd i gynnig cefnogaeth gyda'r Gymraeg. • Hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn cael ei ddarparu i staff. • Mae cyrsiau Cymraeg ar gael i bob aelod o staff ar bob lefel. • Mae 40 aelod o staff wedi bod yn cwblhau cwrs Cymraeg yn ystod 23/24. 	<ul style="list-style-type: none"> • Swyddog Iaith Gymraeg i barhau i fod yn rhan o'r broses anwytho. • Parhau i hysbysebu a hyrwyddo hyfforddiant Cymraeg i staff. • Bydd platfform hyfforddi newydd 'Thinqi' yn caniatáu i'r holl hyfforddiant iaith Gymraeg fod ar gael i bob aelod o staff.
Safonau 134 - 135 Geiriad a Logo ar Gyfer Llofnod E-byst Staff.	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan bob aelod o staff fynediad i'r gwasanaeth cyfieithu ar gyfer llofnodion e-bost ac mae rheolwyr llinell yn atgoffa eu staff yn rheolaidd o'r gofyniad hwn. • Mae llofnodion e-bost staff yn cael eu monitro i sicrhau cydymffurfiaeth. • Mae'r logo 'Iaith Gwaith' ar gael ar fewnrwyd y staff yn ogystal â Sianel Teams Cymraeg i staff ei gynnwys yn eu llofnodion e-bost. 	<ul style="list-style-type: none"> • Monitro i sicrhau cydymffurfiaeth. • Defnyddio Sianel Teams Cymraeg i rannu gwybodaeth berthnasol gyda staff sy'n siarad Cymraeg.

<p>Safonau 136 - 140 Y Broses Recriwtio.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gweler yr adran ar 'Recriwtio'. • Mae'r Cyngor yn nodi bod bob swydd newydd fel o leiaf Cymraeg yn ddymunol. • Mae pob hysbyseb swydd yn cael ei hysbysebu'n ddwyieithog ac yn cynnwys y fframwaith sgiliau iaith Gymraeg ac asesiad iaith Gymraeg. • Swyddog Iaith Gymraeg yn monitro hysbysebion swyddi newydd i sicrhau cydymffurfiaeth. • Pob rôl lle'r aseswyd bod y Gymraeg yn Hanfodol a rhai eraill lle mae'r Gymraeg yn Ddymunol yn cael eu hysbysebu ar safleoedd recriwtio Cymraeg. 	<ul style="list-style-type: none"> • Parhau i wneud defnydd o safleoedd recriwtio Cymraeg. Swyddog y Gymraeg i fonitro canlyniadau'r hysbysebion hyn. • Darparu'r lefelau sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ar gyfer rolau Cymraeg yn Hanfodol er mwyn ceisio cynyddu'r nifer o ymgeiswyr.
<p>Safonau 141 - 143 Arwyddion Mewnol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Rhoi arweiniad i staff ynghylch arwyddion mewnol. • Arwyddion i'w monitro ar gyfer cydymffurfiaeth. 	<ul style="list-style-type: none"> • Monitro i sicrhau cydymffurfiaeth.
<p>Safon 144 Cyhoeddiadau yn y Gweithle.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Recordiwyd pob cyhoeddiad yn ddwyieithog. 	<ul style="list-style-type: none"> • Monitro i sicrhau cydymffurfiaeth.

3. Cwynion

Cwynion gan y Cyhoedd

Ymateb Dwyieithog - Cwyn wedi ei dderbyn gan aelod o'r cyhoedd gan eu bod wedi derbyn ymateb awtomatig dwyieithog wrth e-bostio'r Ganolfan Gyswllt i ofyn am gael gohebiaeth gan y Cyngor yn Saesneg yn unig. Gan mai ymateb awtomataidd oedd yr e-bost a anfonwyd at lu o bobl, mae'n ofynnol yn ôl safonau'r Gymraeg bod ymateb dwyieithog yn cael ei anfon.

Hysbysiad Cynllunio Dwyieithog - Hysbysiad Cynllunio Dwyieithog - Cwyn wedi ei dderbyn gan aelod o'r cyhoedd a oedd wedi derbyn hysbysiad cynllunio dwyieithog pan oedd am dderbyn ei holl ohebiaeth gan y Cyngor yn uniaith Saesneg. Rhoddwyd copi uniaith Saesneg i'r cwsmer, yn unol â'i ddewis iaith.

Cwynion gan Gomisiynydd y Gymraeg

CS1153 - Wedi'i Gwblhau - Cwyn wedi ei dderbyn gan Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch plât enw stryd uniaith Saesneg ar gyfer Park Crescent yn Y Fenni. Cafodd yr arwydd ei osod gan Gyngor Sir Fynwy a chredir ei fod dros ugain mlwydd oed. Oherwydd oedran yr arwydd, nid oes cofnodion bellach o'r union ddyddiad y gosodwyd yr arwydd. Gan fod yr arwydd mor hen, roedd wedi'i osod cyn y gofyniad i arwyddion gael eu cynhyrchu'n ddwyieithog.

4. Sgiliau Iaith Gymraeg

Lefel Sgiliau Iaith Cymraeg Staff

<i>Lefel Sgiliau Iaith Gymraeg</i>	<i>Nifer o Staff (heb ysgolion)</i>	<i>Canran %</i>
Rhugl	43	12.1%
Uwch	5	1.5%
Canolradd	38	14.3%
Sylfaen	26	6.4%
Dechreuwr	215	65.7%
<i>Cyfanswm</i>	<i>327</i>	

Lefel Sgiliau Iaith Gymraeg fesul Gyfarwyddiaeth

<i>Lefel Sgiliau Iaith Gymraeg fesul Gyfarwyddiaeth</i>	<i>Nifer o siaradwyr Cymraeg (heb ysgolion)</i>	<i>Canran %</i>
Plant a Phobl Ifanc	9	2.8%
Cymunedau a Lleoedd	65	19.9%
Cyfraith a Llywodraethu	5	1.5%
Adnoddau	17	5.2%
Gofal Cymdeithasol, Diogelu ac Iechyd	112	34.3%
Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau	10	3.1%
Cwsmer, Diwylliant a Lles – MonLife	109	33.3%
<i>Cyfanswm</i>	<i>327</i>	

Siaradwyr Cymraeg Rhugl fesul Cyfarwyddiaeth

<i>Siaradwyr Cymraeg Rhugl fesul Cyfarwyddiaeth</i>	<i>Nifer o Siaradwyr Cymraeg Rhugl (heb ysgolion)</i>	<i>Canran %</i>
Plant a Phobl Ifanc	1	2.3%
Cymunedau a Lleoedd	2	4.7%
Cyfraith a Llywodraethu	3	7.0%
Adnoddau	2	4.7%
Gofal Cymdeithasol, Diogelu ac Iechyd	15	34.9%
Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau	3	7.0%
Cwsmer, Diwylliant a Lles – MonLife	17	39.5%
<i>Cyfanswm</i>	43	

5. Cyrsiau Cymraeg

Mae'r Cyngor yn cynnig nifer o gyrsiau Cymraeg i staff ar bob lefel o ddysgu. Nod y cyrsiau hyn yw cynyddu nifer y staff sy'n siarad Cymraeg yn yr Awdurdod yn ogystal â chynyddu hyder fel bod staff yn teimlo'n fwy cyfforddus yn defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith. Hwylusir cyrsiau drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol ac fe'u cyflwynir trwy Goleg Gwent. Ariennir yr holl gyrsiau Cymraeg yn llawn drwy Adran y Gymraeg.

Ym mlwyddyn 2023/2024, mae nifer y staff a fynychodd cyrsiau Cymraeg ar y lefelau perthnasol fel a ganlyn:

<i>Lefel Iaith y Cwrs</i>	<i>Nifer y Staff a Gofrestrwyd 2022/2023</i>	<i>Nifer y Staff a Gofrestrwyd 2023/2024</i>
Mynediad / Entry	23	33
Sylfaen / Foundation	3	3
Canolradd / Intermediate	4	3
Uwch / Advanced	1	1
Hyfedredd / Proficiency	1	0
<i>Cyfanswm</i>	<i>32</i>	<i>40</i>

<i>Lefel Iaith y Cwrs</i>	<i>Nifer y Staff a Gofrestrwyd 2022/2023</i>	<i>Nifer y Staff a Gofrestrwyd 2023/2024</i>
Mynediad 1 / Entry 1	22	23
Mynediad 2 / Entry 2	1	10
Sylfaen 1 / Foundation 1	1	1
Sylfaen 2 / Foundation 2	2	2
Canolradd 1 / Intermediate 1	2	2
Canolradd 2 / Intermediate 2	2	1
Uwch 1 / Advanced 1	1	1
Hyfedredd / Proficiency	1	0
<i>Cyfanswm</i>	<i>32</i>	<i>40</i>

Mae Safon 128 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu hyfforddiant yn Gymraeg i staff yn y meysydd canlynol, os cânt eu darparu yn Saesneg:

- Recriwtio a chyfweld;
- Rheoli Perfformiad;
- Gweithdrefnau cwyno a disgyblu;
- Ymsefydlu;
- Delio â'r cyhoedd; ac
- Iechyd a diogelwch.

Gofynnir i staff a hoffent dderbyn yr hyfforddiant hwn yn Gymraeg.

Rydym wedi bod yn defnyddio ein Grŵp Teams Cymraeg newydd i atgoffa staff eu bod yn gallu cael mynediad at yr hyfforddiant uchod drwy gyfrwng y Gymraeg.

6. Recriwtio

Swyddi wedi'u hysbysebu ar gyfer 2023-2024

	2022-2023	2022-2023	2023-2024	2023-2024
	Nifer	%	Nifer	%
Swyddi gwag/newydd a hysbysebwyd	781	-	649	-
Swyddi gwag/newydd a hysbysebwyd oedd â sgiliau yn y Gymraeg yn 'hanfodol'	6	0.8%	24	3.7%
Swyddi gwag/newydd a hysbysebwyd oedd â sgiliau yn y Gymraeg yn 'ddymunol'	775	99.2%	625	96.3%
Swyddi gwag/newydd a hysbysebwyd a gafodd eu nodi fel swyddi lle mae 'angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd'	0	0	0	0
Nifer y swyddi gwag/newydd a hysbysebwyd 'nad oedd angen sgiliau yn y Gymraeg'	0	0	0	0
Nifer y swyddi nad oedd yn cynnwys asesiad	0	0	0	0
Nifer y swyddi heb eu nodi	0	0	0	0

Swyddi wedi'u hysbysebu ar gyfer ysgolion ar gyfer 2023 - 2024

	2022-2023	2022-2023	2023-2024	2023-2024
	Nifer	%	Nifer	%
Swyddi gwag/newydd mewn ysgolion a hysbysebwyd	108	-	117	-
Swyddi gwag/newydd mewn ysgolion a hysbysebwyd oedd â sgiliau yn y Gymraeg yn 'hanfodol'	29	26.9%	20	17.1%
Swyddi gwag/newydd mewn ysgolion a hysbysebwyd oedd â 'sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol.	79	73.1%	97	82.9%
Swyddi gwag/newydd mewn ysgolion a hysbysebwyd a gafodd eu nodi fel swyddi lle mae 'angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd'	0	0	0	0
Nifer y swyddi gwag / newydd mewn ysgolion a hysbysebwyd 'nad oedd angen sgiliau yn y Gymraeg'	0	0	0	0
Nifer y swyddi nad oedd yn cynnwys asesiad	0	0	0	0
Nifer y swyddi heb eu nodi	0	0	0	0

Recriwtio

Mae'r broses ymgeisio am swydd ar gael yn Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg ac mae pob swydd wag yn cael ei hysbysebu'n ddwyieithog. Fel rhan o'r broses recriwtio, ac un o ofynion Safon 136, rhaid asesu'r angen am sgiliau Cymraeg ar gyfer pob swydd wag. Mae'r Cyngor yn nodi bod pob swydd wag newydd yn nodi bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol fel gofyniad sylfaenol. Os yw'r swyddi'n cynnwys lefel uchel o ryngweithio â'r cyhoedd neu lle mae diffyg sgiliau Cymraeg cyfredol yn y maes gwasanaeth, asesir bod y Gymraeg yn hanfodol i'r rhain. Ar gyfer swyddi sy'n cael eu hasesu fel rhai Cymraeg hanfodol, rydym yn annog rheolwyr i nodi yn y fanyleb swydd pa fathau o sgiliau Cymraeg sydd eu hangen i gyflawni'r rôl. Mae hyn er mwyn annog ceisiadau gan y rhai sydd wedi dysgu'r iaith, gan ein bod yn aml yn gweld nad oes gan ddysgwyr yr hyder i ymgeisio am rolau Cymraeg hanfodol oherwydd yr ansicrwydd ynghylch pa fathau o dasgau y bydd angen iddynt allu eu cyflawni yn Gymraeg. Yn ogystal, rydym yn cynnwys y fframwaith sgiliau iaith Gymraeg o fewn pob hysbyseb swydd. Rydym hefyd yn defnyddio safleoedd recriwtio Cymraeg i hysbysebu swyddi sy'n cael eu hasesu fel bod y Gymraeg yn hanfodol, yn ogystal â rhai swyddi dethol lle mae'r Gymraeg yn ddymunol. Drwy hysbysebu swyddi ar y safleoedd recriwtio pwrpasol hyn, rydym yn ei gwneud yn haws i siaradwyr Cymraeg ddod o hyd i'n swyddi gwag, ac rydym wedi llwyddo i benodi siaradwyr Cymraeg o ganlyniad i'r safleoedd recriwtio hyn.

7. Gwasanaeth Cwsmer

Galwadau Ffôn Cymraeg

Rhwng 1af Ebrill 2023 a'r 31ain Mawrth 2024, bu 56 o alwadau i'r llinell Gymraeg.

Mae'r rhestr ganlynol yn rhoi dadansoddiad o natur yr ymholiadau fesul adran.


Ailgylchu a Gwastraff	27
Tîm Cyfathrebu	2
Treth y Cyngor/cyfraddau/cyllid	9
Adnoddau Dynol	2
Plant a Phobl Ifanc/Addysg	2
Gofal Cymdeithasol	5
Cynllunio	1
Priffyrdd	4
Swyddog y Gymraeg	3
Grantiau	1
Cyfanswm	56

Yn ogystal â theleffoni, mae gennym Ap cwbl ddwyieithog 'Fy Sir Fynwy' lle gall cwsmeriaid wneud taliadau, adrodd am ddigwyddiadau a gofyn am wasanaethau yn Gymraeg. Mae gennym ni hefyd sgwrsfot cwbl ddwyieithog fel bod cwsmeriaid yn gallu cael cymorth yn Gymraeg 24/7. Mae staff yn monitro'r sgwrsfot yn ystod oriau agor y swyddfa i helpu cwsmeriaid gydag unrhyw ymholiadau nad yw'r sgwrsfot yn gallu eu hateb.

8. Hyrwyddo

Cynghorion Cymraeg (Welsh Tip)

Er mwyn helpu i hyrwyddo Safonau'r Gymraeg i staff ac i ddsbarthu canllawiau ar gyfer arferion gorau, mae 'Cynghorion Cymraeg' wedi'i gynnwys yng nghylchlythyr pythefnos ar gyfer staff y Cyngor. Nodir Safon y Gymraeg ar gyfer pob mater a rhoddir canllawiau ar sut y gallwn gydymffurfio â'r safon honno. Er enghraifft, pan nodwyd bod adegau pan oedd staff yn anghofio cynnwys geiriad ar eu ddogfennau i nodi bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg, roedd y Cyngor Cymraeg yn cynnwys geiriad safonol i'w ddefnyddio.



When we produce a Welsh language version and a separate English language version of a document, we need to make sure that we clearly state on the English language version that the document is also available in Welsh. Include this standard phrasing on the English document:

"Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg / This document is also available in Welsh"

We can also include on the Welsh document the following phrasing:

"This document is also available in English / Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg"

Pan rydym yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ddogfen ar wahân, mae angen i ni wneud yn siŵr ein bod yn datgan yn glir ar y fersiwn Saesneg bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg. Defnyddiwch y frawddeg safonol hon ar y ddogfen Saesneg:

"Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg / This document is also available in Welsh"

Gallwn hefyd gynnwys y frawddeg ganlydol ar y ddogfen Gymraeg:

"This document is also available in English / Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg"

Cyrsiau Cymraeg

Hyrwyddwyd cyrsiau Cymraeg i staff wrth i ni baratoi ar gyfer iddynt gychwyn ym mis Medi ac yna nifer cyfyngedig o ddsbarthiadau ym mis Ionawr. Hyrwyddwyd y dosbarthiadau hyn trwy Gylchlythyr Staff y Cyngor, e-byst ar gyfer Holl Staff, sianel Timau Holl Staff a phosteri yn swyddfeydd Neuadd y Sir. Trefnwyd sesiynau hefyd lle gallai staff alw i mewn i siarad â staff o Ddysgu Cymraeg Gwent am y cyrsiau gwahanol sydd ar gael ac i gael y cyfle i edrych dros rywfaint o gynnwys y cwrsiau. Ymatebodd y staff yn dda i'r cynnig o gyrsiau Cymraeg eto eleni gyda 40 aelod o staff yn cwblhau cwrs. Dyfarnwyd Gwobr Cyflogwr y Flwyddyn 23/24 i Sir Fynwy hefyd yn seremoni wobrwyo flynyddol Dysgu Cymraeg Gwent.

Dysgu Cymraeg

Eisiau darganfod mwy am ddysgu Cymraeg?

Ydych chi wedi gwneud cwrs Cymraeg o'r blaen ond yn ansicr os ydych chi eisiau ail gafael ar ddysgu?

Ydych chi wedi bod yn ystyried cofrestru ar gyfer cwrs ond ddim yn siŵr?

Dewch i sesiwn galw heibio gyda Dysgu Cymraeg Gwent am fwy o wybodaeth am gyrsiau Cymraeg.

Neuadd y Sir
Cegin Llawr Cyntaf

Dydd Iau 24ain Awst 12:30pm-2pm
Dydd Iau 31ain Awst 12:30pm-2pm
Does dim angen cofrestru ar gyfer y sesiynau hyn, dim ond galw heibio am egwrs.

Learn Welsh

Want to find out more about learning Welsh?

Have you done a Welsh course previously but unsure if you want to pick it back up?

Have you been considering registering for a course but not sure if it's for you?

Come along to a drop in session with Dysgu Cymraeg Gwent for more information about Welsh courses.

County Hall
First Floor Kitchen

Thursday August 24th 12:30pm-2pm
Thursday August 31st 12:30pm-2pm
No need to register for these sessions, just drop in for a chat.



Hyrwyddo ar y Cyfryngau Cymdeithasol

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Cyngor yn cyhoeddi cynnwys cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo gwasanaethau a digwyddiadau Cymraeg. Nodir dyddiadau allweddol, pwysig yn y calendr Cymraeg a threfnir postïadau i helpu i ddathlu'r dyddiau hynny ac i sicrhau bod y Gymraeg yn weladwy ac yn cael ei dathlu o fewn ein Sir.

Monmouthshire Community Hubs
29 Feb · 🌐

Mae Dydd Gŵyl Dewi wedi dod yn gynnar yn Hyb Brynbuga bore heddiw! Fydd ein grŵp Sgwrs Gymraeg byth yn gwrthod cyfle i gael pice ar y maen a phaned 🍷 🍷

St David's Day has come early in Usk Hub this morning! Our Welsh Conversation group will never turn down an opportunity for a Welshcake and a cuppa 🍷 🍷



MonLife
1 Mar · 🌐

Rydym wedi cael ymwelydd Cymreig arbennig heddiw ar Canolfan Hamdden Y Fenni, yn edrych ar y gampfa a'r pwll a hyd yn oed yn rhoi cynnig ar achub bywydau! #DyddGŵylDewi #YDdraigGymreig

We've had a special Welsh visitor today on site at Abergavenny Leisure Centre checking out the gym and pool, even had a go at lifeguarding! #Stdavidsday #Welshdragon



MonLife · Follow
1 Mar · 🌐

Rydym yn mynd mewn i naws Dydd Gŵyl Dewi yma heddiw yn MonLife! Bu ein cydweithwyr gwych yn Hyb Cymunedol y Fenni yn rhannu llawenydd Cymreig! 🥰 🥰

We're getting in the spirit of St Davids day here in MonLife! Our fantastic colleagues at the Abergavenny Community Hub have been sharing Welsh joy! 🥰 🥰



Like Comment Send Share

Rydym hefyd yn ceisio annog pobl i ymgysylltu gyda'n postïadau am yr iaith, er enghraifft ar Ddiwrnod Santes Dwynwen ofynnem i bobl rannu gyda ni'r hyn y maent yn ei garu am Sir Fynwy. Yn ogystal, ar Ddydd Gŵyl Dewi, defnyddiwyd yr achlysur fel cyfle i lansio cynlluniau'r Cyngor ar gyfer yr ysgol Gymraeg newydd a fydd yn agor yn Nhrefynwy ym mis Medi. Gwneir hyn i geisio symud oddi wrth ddull tocenistaidd at postïadau Cymraeg ac yn lle hynny i gael postïadau sy'n fwy debygol o gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.

Cyngor Sir Fynwy
25 Jan · 🌐

Ar Ddydd Santes Dwynwen rydym am i chi rannu eich rhesymau pam eich bod yn caru Sir Fynwy. Ai ein tirweddau trawiadol, ein cymunedau caredig neu efallai ein bwyd blasus? Rhannwch eich syniadau isod. ❤️ 🍷
#YmweldaSirFynwy #Cymru #Cariad



Cyngor Sir Fynwy
1 Mar · 🌐

Wrth i Gyngor Sir Fynwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, mae'n bleser gennym rannu cipolwg ar gynlluniau'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd a fydd yn agor ei drysau yn Nhrefynwy cyn hir.

Bydd Ysgol Gymraeg Trefynwy yn agor ei drysau i'r disgyblion cyntaf ym mis Medi 2024, a'r bwriad yw cwblhau adeilad yr ysgol newydd ar ei newydd wedd yn 2025.

<https://bit.ly/3P3IDNY>



Ysgol Gymraeg Trefynwy

Cyngor Sir Fynwy
30 Nov 2023 · 🌐

Defnyddiwc y Gymraeg gyda ni - dros y ffôn, drwy e-bost ar y cyfryngau cymdeithasol, yn wyneb i wyneb!

Mae'n iaith i bawb. #DefnyddiaDyGymraeg
<https://www.monmouthshire.gov.uk/cy/>



Fideos

Rydym wedi creu fideos amrywiol drwy gydol y flwyddyn i helpu hyrwyddo'r Gymraeg.

Addysg Cyfrwng Cymraeg

Creodd y Cyngor fideo i hyrwyddo addysg Gymraeg a'r ysgol Gymraeg newydd yn Nhrefynwy a fydd yn agor ym mis Medi. Ffilmwyd y fideo yn Ysgol y Ffin lle clywn gan yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Cynghorydd Martyn Groucutt, sy'n trafod manteision addysg cyfrwng Cymraeg. Clywn hefyd gan athrawes yn yr ysgol sy'n sôn am ba mor dda y mae'r plant yn bwrw ati i ddysgu'n ddwyieithog ac yn rhoi sicrwydd i rieni na sydd efallai yn siarad yr iaith eu hunain, am y cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt fel rhieni. Ar ddiwedd y fideo, mae rhai o ddisgyblion Ysgol y Ffin yn dweud wrthym sut maen nhw'n mwynhau siarad Cymraeg a bod yn ddwyieithog.



Diwrnod Shwmae Su'mae


Mae Diwrnod Shwmae Su'mae yn cael ei ddathlu'n flynyddol ar 15fed Hydref. Nod y diwrnod yw i ddathlu'r iaith Gymraeg ac annog pawb i ddechrau pob sgwrs yn Gymraeg gyda chyfarfodiad syml o 'Shwmae' neu 'Su'mae'. Nid oes rhaid i chi fod yn siaradwr Cymraeg rhugl i gymryd rhan yn dathlu'r diwrnod. Anogir pawb i ddefnyddio'r Gymraeg beth bynnag fo lefel eu sgiliau. Y peth pwysicaf yw ein bod yn rhannu'r iaith ag eraill. Creodd y Cyngor fideos i ddathlu'r diwrnod gyda staff ar draws y sefydliad ynghyd â disgyblion o Ysgol y Ffin yn rhannu eu cyfarfodiad o 'Shwmae'.



Defnyddia Dy Gymraeg

Mwy Na Geiriau

I ddatlu ymgyrch 'Defnyddia Dy Gymraeg' Comisiynydd y Gymraeg yn fis Rhagfyr, cyfrannodd y Cyngor at fideo a grëwyd fel prosiect ar y cyd gan Grŵp Rhwydwaith Mwy Na Geiriau Gwent. Yn rhan Cyngor Sir Fynwy o'r fideo, buom yn cyfweld ag Arwel Rowlands sy'n gweithio fel Gweithiwr Gofal a Chymorth yng Nghanolfan Adnoddau Parc Maerdy. Yn y cyfweiliad, bu Arwel yn trafod sut mae'n defnyddio'r Gymraeg i gefnogi trigolion Parc Mardy, a faint mae hynny'n ei olygu iddo ef a'r trigolion. Soniodd hefyd am sut mae'n helpu ei gydweithwyr i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith.



Digwyddiadau

Mynychodd staff y Cyngor ddigwyddiadau amrywiol drwy gydol y flwyddyn i helpu i hyrwyddo'r Gymraeg yn Sir Fynwy. Mynychodd staff Sioe Brynbuga lle'r oedd stondin i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn ogystal ag amryw o ddigwyddiadau hyrwyddo ar gyfer yr ysgol Gymraeg newydd yn Nhrefynwy. Drwy fynychu'r mathau hyn o ddigwyddiadau, mae'n rhoi cyfle gwyb i ni gwrdd â phobl yn ein cymuned, gwranddo ar eu hawgrymiadau a darparu gwybodaeth am ein gwasanaethau Cymraeg.



9. Casgliad

Cyrsiau Cymraeg

Yn ystod blwyddyn ariannol 23/24, dilynwyd ein llwyddiant blaenorol ym mlwyddyn 22/23 o ran nifer y staff a gwblhaodd gwrs Cymraeg. Yn 22/23, cwblhaodd 32 aelod o staff cwrs, ac yn y flwyddyn gyfredol cwblhaodd 40 o staff cwrs. Mae hyn yn gynnydd sylweddol o'r flwyddyn 21/22 pan gwblhaodd 19 aelod o staff cwrs Cymraeg. At hyn, pan edrychwn ar nifer y staff sy'n cwblhau cwrs fesul lefel sgil, rydym yn sylwi ar welliannau pellach. Rhennir y lefel Mynediad yn ddwy is-lefel, Mynediad 1 a Mynediad 2, ac mae'n cymryd dwy flynedd i gwblhau'r lefel yn ei chyfanrwydd. Y llynedd, roedd 22 aelod o staff wedi cwblhau lefel Mynediad 1 ac 1 wedi cwblhau Mynediad 2. Eleni, mae 23 aelod o staff yn cwblhau lefel Mynediad 1 a 10 yn cwblhau Mynediad 2. Mae hyn yn golygu ein bod yn gweld bod aelodau staff yn parhau i ddysgu Cymraeg. Yn y cyfnod cyn i'r cyrsiau cychwyn yn fis Medi 2023, roeddem wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau hyrwyddo yn Neuadd y Sir gyda Dysgu Cymraeg Gwent a oedd yn annog staff i gofrestru ar gyfer cyrsiau ac yn rhoi cyfle iddynt ddysgu mwy am strwythur y cyrsiau a'u cynnwys. Yn dilyn y llwyddiant hwn, dyfarnwyd gwobr Cyflogwr y flwyddyn 22/23 i Gyngor Sir Fynwy yn seremoni wobrwyo flynyddol Dysgu Cymraeg Gwent. Mae hyn yn destament mawr i staff y Cyngor am eu hymroddiad i ddysgu Cymraeg i'n galluogi i allu darparu gwasanaethau Cymraeg gwell i'n trigolion

Cynhelir gwerthusiadau anffurfiol gydag aelodau staff i adolygu profiad y staff o ddilyn cyrsiau Cymraeg. Mae adborth gan staff yn parhau i fod yn gadarnhaol, gyda staff yn nodi er bod dysgu Cymraeg wedi bod yn anodd ar adegau, maent wedi mwynhau'r broses a'u dosbarthiadau ac yn teimlo'n llawer mwy hyderus wrth ddefnyddio'r iaith fel rhan o'u gwaith a'u bywydau bob dydd. Gyda phob carfan o weithwyr sy'n cwblhau'r cwrs, mae'r rhwydwaith o siaradwyr Cymraeg ar draws yr Awdurdod yn cynyddu, sy'n golygu ein bod ni fel Awdurdod yn gallu darparu gwasanaethau Cymraeg gwell. Yn ogystal, mae'n caniatáu mwy o gyfleoedd i staff gyfathrebu â'u cydweithwyr yn Gymraeg. Mae sianel Timau Cymraeg hefyd yn cynnig llwyfan gwych i staff y Cyngor allu rhwydweithio a chymdeithasu ag aelodau eraill o staff sy'n siarad Cymraeg.

Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd

Yn dilyn cwyn flaenorol gan Gomisiynydd y Gymraeg ynglŷn â'n prosesau llunio polisi ynglŷn â'n Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd, adolygwyd y polisi yn 23/24. Ychwanegwyd y paragraff canlynol at y polisi:

“3.1.5 Pan fydd angen platiau enw stryd ychwanegol neu amnewid ar stryd bresennol gydag enw Saesneg, er enghraifft oherwydd difrod, bydd y platiau enw newydd yn cael cyfieithiad Cymraeg o enw'r stryd wedi'i ychwanegu at y plât enw, er mwyn cydymffurfio â Safonau Iaith Gymraeg Sir Fynwy. Bydd y platiau enw newydd yn arddangos enw'r stryd yn ddwyieithog, yn Gymraeg ac yn Saesneg.”

Gwnaethpwyd y gwelliant hwn i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal ac i gynyddu amlygrwydd yr iaith yn y gymuned. Mae'n bwysig pan fyddwn yn cyfieithu enwau strydoedd presennol bod ystyriaeth ddigonol yn cael ei rhoi i gyd-destun ac ystyr yr enw gwreiddiol. Gwneir cyfieithiadau ar gyfer enwau strydoedd gan gyfieithydd pwrpasol i helpu i sicrhau cywirdeb. Mae'r Swyddog Enwi Strydoedd ynghyd â'r Swyddog Iaith Gymraeg yn gweithio'n agos gyda'r cyfieithydd i sicrhau bod cymaint o wybodaeth â phosibl yn cael ei ddarparu iddynt ynglŷn â chyd-destun gwreiddiol yr enw. Mae pob arwydd stryd newydd yn parhau i fod yn ddwyieithog neu'n uniaith Gymraeg. Dewisir enwau yn ofalus i adlewyrchu hanes a threftadaeth yr ardal, ac mae Swyddog yr Iaith Gymraeg a'r Swyddog Enwi Strydoedd yn gweithio'n agos yn y broses hon.

Penodi Rheolwr Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Rydym wedi penodi Rheolwr Cydraddoldeb a'r Gymraeg yn ddiweddar a ddechreuodd yn ei rôl ym mis Mawrth 2024. Bydd y Rheolwr yn gweithio ym mlwyddyn ariannol 24/25 i adolygu'r prosesau Cymraeg yn 23/24 i sicrhau cydymffurfiaeth y Cyngor â'r safonau ac i asesu ei gamau i hyrwyddo'r iaith. Bwriedir adolygu'r prosesau Llunio Polisi, gan gynnwys diweddarau ein templed a chanllawiau Asesiad Effaith Integredig. Mae gwaith eisoes wedi dechrau i adolygu ein prosesau lle mae hyfforddiant pwrpasol wedi'i greu ar gyfer awduron adroddiadau ar sut i ysgrifennu asesiad o'r effaith ar y Gymraeg mewn modd effeithiol a chydwybodol. Bydd ein platfform hyfforddiant newydd 'Thinqi' sydd i'w lansio'n fuan, yn cael ei ddefnyddio fel ei bod yn haws i staff gael mynediad at hyfforddiant gorfodol. Byddwn hefyd yn ymgorffori'r broses o gofnodi sgiliau Cymraeg staff ar y llwyfan, a fydd yn caniatáu cynrychiolaeth fwy cywir o'r sgiliau iaith o fewn yr Awdurdod.

System Deleffoni Newydd y Ganolfan Gyswllt

Mae ein Canolfan Gyswllt ar hyn o bryd yn y camau olaf o gaffael system ffôn newydd. Nid yw ein technoleg bresennol yn caniatáu i ni flaenoriaethu galwadau Cymraeg i siaradwyr Cymraeg yn y ganolfan gyswllt. O ganlyniad, mae galwyr yn cael eu gosod mewn grŵp chwilota a atebir gan gronfa o swyddogion Cymraeg eu hiaith, yn hytrach na chynghorydd gwasanaeth cwsmeriaid hyfforddedig. Bydd y system newydd yn cael ei ffurfweddu fel bod rhywun sydd eisiau siarad yn Gymraeg yn gwthio'r rhif priodol o'r ddewislen, a byddant yn cael eu gosod mewn safle blaenoriaeth yn y ciw galwadau o staff y ganolfan gyswllt sy'n siarad Cymraeg. Gan fod gennym gyfran uwch o staff sy'n siarad Saesneg, gallwn gyfiawnhau bod y sawl sy'n ffonio ac am siarad Cymraeg yn cael eu blaenoriaethu. Bydd y system yn sicrhau bod cynghorydd gwasanaeth cwsmeriaid hyfforddedig yn delio â siaradwyr Cymraeg. Bydd hyn yn sicrhau y gellir cwblhau eu galwad yn gyfan gwbl drwy'r Gymraeg. Bydd yn osgoi trosglwyddo ac yn gwella profiad galwyr. Rydym wedi hysbysebu am ac wedi llwyddo i benodi cynghorydd sy'n siarad Cymraeg i'r Ganolfan Gyswllt, ac mae gennym ddau aelod o staff yn y Ganolfan Gyswllt sydd wedi bod yn cwblhau cwrs Cymraeg am y ddwy flynedd ddiwethaf. Gobeithiwn y bydd y system newydd hon yn cynyddu nifer y bobl sy'n dewis defnyddio'r Gymraeg yn gyntaf pan fyddant yn ymwneud â ni, yn unol ag amcan ein Strategaeth Iaith Gymraeg i gynyddu cyfleoedd i bobl ryngweithio â gwasanaethau cyhoeddus drwy gyfrwng y Gymraeg.